



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Ioan 13: 1-17	 A photograph showing Jesus washing the feet of his disciples. The text 'John 13 v 1-17' is in the top left, 'Free Bible Images' is in the top right, and 'THE EASTER STORY JESUS WASHES THE DISCIPLES' FEET www.freebibleimages.org' is at the bottom.	
1 Erbyn hyn roedd hi bron yn amser dathlu Gŵyl y Pasg. Roedd Iesu'n gwybod fod yr amser wedi dod iddo adael y byd a mynd at y Tad. Roedd wedi caru y rhai oedd yn perthyn iddo, ac yn awr dangosodd iddyn nhw mor fawr oedd ei gariad.	 A photograph of Jesus sitting at a table with other people in a dimly lit room, likely the Last Supper.	
2 Roedden nhw wrthi'n bwyta swper. Roedd y diafol eisoes wedi rhoi'r syniad i Iwdas, mab Simon Iscariot, i fradychu Iesu.	 A photograph of Judas Iscariot, one of the twelve apostles, looking thoughtful or concerned.	
3 Cododd Iesu oddi wrth y bwrdd, tynnu ei fantell allanol, a rhwymo tywel am ei ganol.	 A photograph of Jesus sitting at a table, removing his outer garment.	

- 
- 4 Yna tywalltodd ddŵr i fowlen a dechrau golchi traed ei ddisgyblion.



- 
- 5 Sychodd eu traed gyda'r tywel oedd am ei ganol.



- 
- 6 Pan ddaeth tro Simon Pedr, dyma Simon yn dweud, "Arglwydd, wyt ti'n mynd i olchi fy nhraed i?"



- 
- 7 Atebodd Iesu, "Dwyt ti ddim yn deall beth dw i'n wneud ar hyn o bryd, ond byddi'n dod i ddeall yn nes ymlaen."



- 
- 8 Ond meddai Pedr, "Na, byth! chei di ddim golchi fy nhraed i!"



- 
- 9 “Os ga i ddim dy olchi di,” meddai Iesu, “dwyt ti ddim yn perthyn i mi.



- 
- 10 “Os felly, Arglwydd,” meddai Simon Pedr, “golcha fy nwylo a'm pen i hefyd, nid dim ond fy nhraed i!



- 
- 11 Atebodd Iesu, “Does dim rhaid i rywun sydd wedi cael bath ymolchi eto, dim ond golchi ei draed, am fod gweddill ei gorff yn lân. A dych chi'n lân — pawb ond un ohonoch chi.” (Roedd yn gwybod pwy oedd yn mynd i'w fradychu; a dyna pam y dhwedodd e fod un ohonyn nhw ddim yn lân.)




- 
- 12 Ar ôl iddo orffen golchi eu traed nhw, gwisgodd ei fantell eto a mynd yn ôl i'w le. “Ydych chi'n deall beth dw i wedi ei wneud i chi?” meddai. “Dych chi'n fy ngalw i yn ‘Athro’ neu yn ‘Arglwydd’, ac mae hynny'n iawn, am mai dyna ydw i. Felly, am fy mod i, eich Arglwydd a'ch Athro wedi golchi eich traed chi, dylech chi olchi traed eich gilydd. Dw i wedi rhoi esiampl i chi er mwyn i chi wneud yr un peth i'ch gilydd. Credwch chi fi, dydy caethwas ddim uwchlaw ei feistr, a dydy negesydd ddim yn bwysicach na'r un wnaeth ei anfon e.”



---

13 Cyfieithwyd gan  
www.beibl.net



[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---

14

